



TGAU

3010N10-1



S18-3010N10-1

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN SYLFAENOL

DYDD LLUN, 14 MAI 2018 – BORE

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o fywyd ar y stryd i ni.

Cymharwch y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** neu'n **wahanol**.
Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
 - *Pa fath o ddarlun o fywyd person digartref mae'r ddau fardd yn ei roi i ni?*
 - *Meddylwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.*
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd arddull/mesur** a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

Tai Unnos

Sbwriel oes yr iâ oedd y cerrig llyfnion
orweddaï'n flêr hyd lannau'r afon:

sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif
a siapiodd bob dyffryn ganrif wrth ganrif:

ac â'r sbwriel cododd ein cyndeidiau'n ddyfal
fwthyn clyd yn nhro'r afon, ar seiliau petryal;

gosod carreg ar garreg rhwng gwyll a gwawr,
a chynnau tân cyn i'r landlord dynnu'r cyfan i lawr;

hawlio darn o dir a'i godi'n aelwyd,
drwy nerth bôn braich troi llafur yn freuddwyd:

ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion,
ac yng nghesail goncrid swyddfeydd gweigion,

dan bontydd ffyrdd osgoi, mewn meysydd parcio mae rhai
yn eu dyblau heno hefyd wrthi'n codi tai,

rhoi trefn ar sbwriel dan y sêr,
hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.

Iwan Llwyd

Pres y Palmant

*Pres, pres,
Fel aur,
Pedwar darn punt
Cryf, crwn
Fel aur yn fy llaw.

Dyma'r allwedd
I ddrws *Star Wars*
Yn sinema'r dre.
Pedwar darn am docyn,
Pedair allwedd i agor y drws.

Ond pwy ydy hwn
Ar y palmant oer?
Y llygaid cryf, crwn
Yn wag heno,
Fel y nos.

*“*Big Issue*, syr? Dim ond punt...”

Dim ond punt? Ond dw i eisiau pob punt
Am docyn i'r sêr!
Star Wars neu'r *Big Issue*?
Fi – neu fe?

Cerdded adre, *Big Issue* yn fy llaw.
Ond heno, fydd y palmant ddim mor oer.

Robat Powell

*Pres – arian
**Big Issue* – cylchgrawn sy'n cael ei werthu gan bobl ddigartref

DIWEDD Y PAPUR